

# Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol 2023/24 Cynllun gwaith

---





# Rhagair y Cadeirydd



*John Edwards, Comisiynydd Gwybodaeth a Chadeirydd y Fforwm*

Mae technolegau digidol yn gwednewid economi'r Deyrnas Unedig. Mae datblygiadau cyflym mewn technoleg, fel buddsoddi cynyddol yn y 'metafyd', asedau digidol, a dyfodiad offer Deallusrwydd Artiffisial generig newydd yn rhychwantu nifer o gylchoedd gwaith rheoleiddio.

Ar yr un pryd, mae rheoleiddio digidol yn newid hefyd. Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, diogelu data, a gwasanaethau ariannol, ymysg eraill, i gyd yn dod yn eu blaen, gyda chyfrifoldebau newydd i reoleiddwyr yn y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn debygol o gyrraedd eleni. Gall mynd i'r afael â'r holl newid cymhleth hwn fod yn heriol i fusnesau arloesol.

Mae'r Fforwm yn mynd i'r afael â'r datblygiadau a'r cymhlethdodau hyn yn uniongyrchol. Mae'r cynllun gwaith hwn yn nodi ein meysydd ffocws allweddol ar gyfer 2023/24.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddarparu tirwedd gydlynol o reoleiddio digidol ar draws ein cylchoedd gwaith. Mae Ofcom yn symud i roi'r Bil Diogelwch Ar-lein ar waith yn ddiweddarach eleni. Mae diwygiadau pellach a chyfrifoldebau newydd ar gyfer cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ar y gorwel drwy

ddeddfwriaeth arall. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyfrifoldebau newydd a diwygiedig yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ategu mwy o eglurder a sicrwydd rheoleiddiol i'r busnesau sy'n ddarostyngedig i rwymedigaethau o dan y trefniadau hyn.

Byddwn hefyd yn annog arferion gorau o ran rheoleiddio ac archwilio algorithmau a deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys cynorthwyo'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial newydd. Mae gan y Fforwm a phartneriaid rheoleiddio eraill rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd a thechnoleg deallusrwydd artiffisial, a byddwn yn ymgysylltu ar gynigion Adolygiad Vallance a'r Papur Gwyn ar ddeallusrwydd artiffisial dros y misoedd nesaf.

Mae rhagweld a pharatoi ar gyfer tuddiadau technolegol newydd, drwy raglen sganio'r gorwel y Fforwm, yn dal yn ffocws craidd i ni. Yn 2023/24 byddwn yn creu dealltwriaeth y gellir gweithredu arni o faterion fel hunaniaeth ddigidol ac amgylcheddau rhithwir. Byddwn hefyd yn ymchwilio, yn dylunio ac yn treialu gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth newydd i gynorthwyo cwmnïau arloesol sydd â chynhyrchion a phrosesau newydd sy'n cyffwrdd â nifer o gylchoedd gwaith rheoleiddio.

Yn olaf, byddwn yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd, a lle bo hynny'n bosibl, yn bartner ar y materion hyn yn eang gyda rhanddeiliaid gan gynnwys y diwydiant, y llywodraeth, rheoleiddwyr eraill, a chymdeithas sifil er mwyn i ni allu meithrin cydweithio ehangach ar y pynciau cymhleth hyn.

Rydym yn falch iawn o fod wedi penodi Kate Jones yn Brif Weithredwr newydd y Fforwm ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda hi a chymuned y Fforwm yn y flwyddyn i ddod.

**John Edwards, Comisiynydd Gwybodaeth a Chadeirydd y Fforwm**

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn fforwm gwirfoddol sy'n dwyn ynghyd bedwar o'r prif reoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau digidol:


- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA);
- yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA);
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO); ac
- y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom).

1.2 Fe wnaethom ffurfio'r Fforwm oherwydd bod rheoleiddio effeithlon a chydgyssylltiedig yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth y mae gwasanaethau a thechnolegau digidol yn eu hachosi. Mae'r gwaith o lywodraethu a gweithredu'r Fforwm yn cael ei egluro ymhellach yn ein Cylch Gorchwyl cyhoeddus. Mae gan y Fforwm dri nod:<sup>1</sup>

- hyrwyddo mwy o **gysondeb**, fel bod y Fforwm yn helpu i ddatrys tensiynau posibl pan fydd trefniadau rheoleiddio'n plethu â'i gilydd, gan gynnig eglurder i bobl ac i'r diwydiant;
- **cydweithio** ar feysydd o ddiddordeb cyffredin a mynd i'r afael â phroblemau cymhleth ar y cyd; a
- gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r **galluoedd** angenrheidiol, gan ddysgu o'r hyn y mae pob corff rheoleiddio yn ei wneud, ac ymdrechu i fod y gorau, nawr ac yn y dyfodol.




1.3 Gyda'n gilydd, mae gennym gyfrifoldeb enfawr dros reoleiddio digidol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn nodi ein cylchoedd gwaith unigol yn y maes hwn yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Prif gyfrifoldebau mewn perthynas â gwasanaethau digidol**

Rheoleiddi wr	Prif gyfrifoldebau mewn perthynas â gwasanaethau digidol <sup>2</sup>
	Yn gyfrifol am hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr, mae gan y CMA bwerau i orfodi cyfraith cystadleuaeth a defnyddwyr, cynnal astudiaethau o'r farchnad ac asesu achosion o uno. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd wedi cael y dasg gan y llywodraeth o oruchwylio trefn newydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol, drwy ei Uned Marchnadoedd Digidol newydd, sydd wedi'i sefydlu ar ffurf gysgodol ar hyn o bryd.

<sup>1</sup> Y Fforwm: Cylch gorchwyl - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk)), y Fforwm, Medi 2022.

<sup>2</sup> Nid yw'n fwiad i'r crynodeb hwn gwmpasu cylch gwaith cynhwysfawr llawn y rheoleiddwyr, dim ond y rhai sy'n ymwneud yn fwyaf penodol â gwaith y Fforwm.

Rheoleiddi wr	Prif gyfrifoldebau mewn perthynas â gwasanaethau digidol <sup>2</sup>
	<p>Yn gyfrifol am reoleiddio diwydiant gwasanaethau ariannol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys marchnadoedd digidol. Mae gan yr FCA dri amcan gweithredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diogelu defnyddwyr;</li> <li>• hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr;</li> <li>• diogelu a gwella uniondeb system ariannol y Deyrnas Unedig.</li> </ul>
	<p>Yn gyfrifol am gynnal hawliau a rhyddid pobl pan fydd sefydliadau'n prosesu eu data personol, gan gynnwys amddiffyn plant ar-lein drwy'r Cod Dylunio Priodol i Oedran (Cod y Plant). Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd gyfrifoldebau rheoleiddio penodol mewn perthynas â seiberddiogelwch systemau gwybodaeth a rhwydwaith y Deyrnas Unedig, ac mewn perthynas ag e-breifatrwydd a gwasanaethau ymddiriedaeth electronig.</p>
	<p>Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig, mae Ofcom yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau cyfathrebu – o ddarpariaeth telegyfathrebiadau a'r rhyngwrwyd i wasanaethau cynnwys. Fel rhan o hyn, mae Ofcom yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos fel TikTok a Snap, a nododd y Bil Diogelwch Ar-lein sydd ar ddod mai Ofcom fyddai rheoleiddiwr y drefn diogelwch ar-lein newydd. Mae gan Ofcom hefyd gyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer seiberddiogelwch a chadernid rhwydweithiau cyfathrebu'r Deyrnas Unedig.</p>

1.4 Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 a nodir yn y cynllun gwaith hwn wedi cael eu datblygu ar gefndir o newid:

- Mae arloesi technolegol dwys ar draws y dirwedd ddigidol yn parhau, gyda datblygiadau uchel eu proffil fel deallusrwydd artifisial achosol yn gallu arwain at fanteision a risgiau sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn ceisio datblygu ein dealltwriaeth o dechnolegau newydd ymhellach er mwyn i reoleiddwyr allu ystyried yn fwy rhagweithiol y materion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â newid technolegol.
- Wrth i Ofcom baratoi i roi'r Bil Diogelwch Ar-lein ar waith yn ddiweddarach eleni, ac wrth i Senedd y Deyrnas Unedig fwrw ymlaen â diwygiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, diogelu data a gwasanaethau ariannol, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni'n gallu darparu eglurder rheoleiddiol yn effeithiol i fusnesau'r Deyrnas Unedig.
- Ar yr un pryd, mae gan y llywodraeth agenda ddigidol eang a gweithredol, sy'n cynnwys cynigion diwygio ar reoleiddio diogelu data, fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artifisial, hysbysebu ar-lein, a seiberddiogelwch. Disgwylwn i'n cynllun gwaith dros y flwyddyn nesaf ategu gwaith y llywodraeth, drwy ystyried sut gallwn weithio gyda'n gilydd yn y meysydd hyn lle bo hynny'n briodol.

1.5 Mae'r cynllun gwaith hwn yn adeiladu ar sylfeini gwaith y Fforwm y llynedd a nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae'r fforwm mewn sefyllfa dda i chwarae rhan flaenllaw mewn

nifer o faterion rheoleiddio digidol o fewn cylch gwaith ei aelodau a fydd yn bwysig i ddefnyddwyr, dinasyddion a busnesau yn y Deyrnas Unedig dros 2023/24.

- 1.6 Yn Nhabl 2, rydym yn crynhoi'r portffolio gwaith ar gyfer 2023/24, yn unol â nodau'r Fforwm o hyrwyddo cydlyniant, meithrin cydweithio a meithrin galluoedd ar draws rheoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig.

**Tabl 2: portffolio gwaith ar gyfer 2023/24**

Cysondeb	<p><b>Diogelwch ar-lein a diogelu data:</b> Ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael ei basio, bydd angen i wasanaethau ar-lein perthnasol gydymffurfio â rheolau diogelwch ar-lein a diogelu data. Bydd Ofcom yn paratoi codau ymarfer a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau ar-lein a bydd yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ymysg eraill, wrth baratoi'r rhain. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn paratoi canllawiau ar ddisgwyliadau diogelu data ar gyfer gwasanaethau ar-lein am dechnolegau, gan gynnwys cymedroli cynnwys, a bydd yn ymgynghori ag Ofcom, ymysg eraill, wrth iddo baratoi. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom hefyd yn cynnal perthynas waith agos pan fydd eu cylchoedd gwaith yn croestorri, gan gynnwys goruchwyllo gwasanaethau, technoleg ragweithiol, a sicrhau oedran.</p>
	<p><b>Hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu data:</b> Bydd y CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i ymgysylltu a chydweithio yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar farchnadoedd hysbysebu ar-lein, arferion pensaernïaeth dewis ar-lein a datrysiaid rheoleiddiol posibl. Byddwn hefyd yn ceisio diweddarau datganiad ar y cyd CMA-ICO ar gyfraith diogelu data a chystadleuaeth wrth i'n profiadau rheoleiddio barhau i esblygu.</p>
	<p><b>Hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon ar-lein:</b> Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer cwmnïau. Bydd yr FCA ac Ofcom yn parhau i gydweithio i greu cyd-ddealltwriaeth o rwymedigaethau llwyfannau o dan y Bil Diogelwch Ar-lein a deddfwriaeth hybu ariannol.</p>
Cydweithio	<p><b>Cynorthwyo'r gwaith o lywodraethu systemau algorithmig yn effeithiol:</b> Bydd aelodau'r Fforwm yn parhau i greu consensws ynghylch cymhwyso egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i reoleiddio deallusrwydd artifisial (AI) wrth i'r dechnoleg hon barhau i ehangu ar draws sawl rhan o gymdeithas. Bydd y Fforwm yn cynorthwyo'r llywodraeth lle bo hynny'n briodol wrth iddi ddatblygu ei fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio deallusrwydd artifisial. Byddwn hefyd yn edrych ar y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r technolegau hynny lle gwelwn ddatblygiad a defnydd cyflym, fel deallusrwydd artifisial achosol.<sup>3</sup> Bydd rhagor o ymchwil i algorithmau ac ymgysylltu ag archwilwyr trydydd parti – a'u rôl o ran cefnogi cydymffurfiaeth reoleiddiol – yn cael ei gynnal yn 2023/24.</p>
	<p><b>Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio:</b> Bydd aelodau'r Fforwm yn ymchwilio ar y cyd ac yn treialu gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth sydd â'r nod o helpu arloeswyr mewn marchnadoedd digidol i ddatblygu gwasanaethau'n gyfrifol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyllido gan Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr.</p>

<sup>3</sup> Mae Deallusrwydd Artiffisial achosol yn creu testun, delweddau, cerddoriaeth, llais, cod neu fideo sy'n seiliedig ar ddysgu o gynnwys sydd ar gael yn barod.



	<p><b>Asedau digidol:</b> Bydd yr FCA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal ymchwil ar y cyd i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o agweddau defnyddwyr tuag at asedau digidol fel tocynnau anghyfnawidiadwy a darnau arian neu docynnau crypto, a sut maent yn rhyngweithio â'r cynhyrchion hyn. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y manteision a'r niwed mae asedau digidol yn eu creu i ddefnyddwyr, o safbwynt rheoleiddio gwasanaethau ariannol a rheoleiddio diogelu data. Nod yr FCA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw cyhoeddi gwybodaeth am bolisiau sy'n deillio o'r ymchwil hwn.</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Gallu</p>	<p><b>Sgano'r gorwel ar y cyd:</b> Bydd rheoleiddwyr y Fforwm yn parhau i sgano'r gorwel am dechnolegau newydd. Pan fyddwn ni'n dewis pynciau ar gyfer gwaith pellach, byddwn yn cynnal digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allanol ac yn cyhoeddi gwybodaeth a chanfyddiadau. Eleni, rydym yn blaenoriaethu dau bwnc ar gyfer gwaith pellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hunaniaeth ddigidol,<sup>4</sup> lle byddwn yn ceisio deall sut gallai technolegau newydd effeithio ar ddefnydd yn y dyfodol ar draws sianeli ar-lein, llwyfannau datganoledig, a llawer mwy.</li> <li>• Modelau busnes mewn amgylcheddau rhithwir, lle byddwn yn edrych ar sut gall busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd ddod i'r amlwg mewn amgylcheddau rhithwir, fel llwyfannau metafyd.</li> </ul>
	<p><b>Rhwydweithiau rhannu gwybodaeth:</b> Bydd rheoleiddwyr y Fforwm yn dod ynghyd i drafod materion traws-sector ychwanegol sy'n effeithio ar ein cylchoedd gwaith, gyda'i gilydd a rheoleiddwyr y tu allan i'r Fforwm. Er enghraifft, maes gwaith newydd fydd ystyried y cysylltiadau rhwng ein trefniadau rheoleiddio ar seiberddiogelwch a seibergadernid.</p>
	<p><b>Denu doniau a datblygu sgiliau ar draws y pedwar rheoleiddiwr:</b> Bydd y prosiect hwn yn ystyried y ffordd orau o ddenu'r doniau sydd eu hangen arnom ar gyfer rheoleiddio digidol a bydd yn nodi ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer sut i feithrin y sgiliau rheoleiddio digidol sydd eu hangen.</p>
	<p><b>Datblygu'r defnydd o dechnoleg wrth reoleiddio:</b> Bydd rheoleiddwyr y Fforwm yn cyflwyno mathau mwy ymarferol o gydweithio technegol ar draws rheoleiddwyr, er mwyn gwireddu manteision llawn technolegau rheoleiddio a goruchwylio, sy'n gallu cynyddu ein cynhyrchiant a'n heffeithiolrwydd.</p>
	<p><b>Gweithio mewn partneriaeth ag eraill:</b> Ochr yn ochr ag ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, sy'n ganolog i'n gwaith, bydd y Fforwm yn cynnull cymuned ryngwladol o awdurdodau rheoleiddio sydd â ffocws tebyg i'r Fforwm, er mwyn casglu gwybodaeth am sut mae awdurdodaethau tramor yn nesáu at gydweithrediad ar draws meysydd rheoleiddio digidol.</p>

<sup>4</sup> Hunaniaeth ddigidol yw cynrychiolaeth ddigidol gwybodaeth adnabod unigolyn.

## 2. Cynllun Gwaith 2023/24

- 2.1 Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn llawn, o fewn y nodau a bennir yng Nghylch Gorchwyl y Fforwm ar gyfer cydlyniant, cydweithio a galluoedd.<sup>5</sup>

---

### Cysondeb

- 2.2 Mae gwaith y Fforwm yn ceisio nodi cyfleoedd a rennir a datrys tensiynau posibl rhwng trefniadau rheoleiddio digidol, ac wrth wneud hynny, mae'n cynnig eglurder i bobl ac i'r diwydiant. Mae Ofcom yn paratol i roi'r Bil Diogelwch Ar-lein ar waith yn ddiweddarach eleni, ac mae Senedd y Deyrnas Unedig yn bwrw ymlaen â diwygiadau deddfwriaethol fel y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr a'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein pwerau newydd a diwygiedig yn y meysydd hyn yn gweithio gyda'i gilydd, ac ar ddarparu eglurder a sicrwydd rheoleiddiol i fusnesau'r Deyrnas Unedig.
- 2.3 Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith cydlynu a ganlyn:
- Bydd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i weithio ar y cyd ar brosiectau diogelwch ar-lein a diogelu data;
  - Bydd y CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i gydweithio ar hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu data; a
  - Bydd yr FCA ac Ofcom yn parhau i gydweithio i rannu dealltwriaeth o rwymedigaethau llwyfannau ar-lein o dan y Bil Diogelwch Ar-lein a deddfwriaeth hybu ariannol.
- 2.4 Mae materion rheoleiddiol eraill lle bydd aelodau'r Fforwm yn gweithio gyda rheoleiddwyr y tu allan i'r Fforwm a'r llywodraeth dros 2023/24 i hyrwyddo cysondeb ar draws ein trefniadau. Mae'r pynciau'n cynnwys diwygiadau Data Clyfar arfaethedig y llywodraeth er mwyn gallu rhannu data'n ddiogel mewn marchnadoedd ar draws yr economi.<sup>6</sup> Bydd aelodau'r Fforwm hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar y ffordd mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu trefn newydd ar gyfer cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol o dan y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr arfaethedig gan y llywodraeth.
- 2.5 Ar ben hynny, bydd y CMA ac Ofcom yn parhau â rhaglen ymgysylltu i sicrhau cysondeb penderfyniadau rheoleiddio sy'n ymwneud â chystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr a diogelwch ar-lein.

---

<sup>5</sup> Gweler troednodyn 1.

<sup>6</sup> Gweler Rhan 3 o Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2). [Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol \(Rhif 2\) \(parliament.uk\)](#).

## Diogelwch ar-lein a diogelu data

- 2.6 Mae helpu i wneud y rhyngwyd yn fwy diogel i oedolion a phlant yn rhan hanfodol o'n gwaith. Canfu astudiaeth gan Ofcom fod 71% o holl ddefnyddwyr rhyngwyd y Deyrnas Unedig rhwng 13 a 84 oed wedi dod ar draws o leiaf un darn o gynnwys ar-lein a allai fod yn niweidiol yn ystod y pedair wythnos flaenorol, gyda'r ffigur hwn yn codi i 75% ar gyfer plant 13-17 oed.<sup>7</sup> Mae gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddyletswyddau penodol yn y maes hwn. Mae'n hanfodol bod mesurau diogelu diogelwch a phreifatrwydd ar-lein yn gweithio mewn cytgord ar gyfer defnyddwyr ar-lein, gan gynnwys plant a rhieni.
- 2.7 Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddatganiad ar y cyd yn nodi eu huchelgais gynyddol i gydweithio ar ddiogelwch ar-lein a diogelu data. Dros y flwyddyn nesaf, bydd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymgynghori â'i gilydd wrth iddynt ddatblygu eu codau ymarfer a'u canllawiau arfaethedig yn dilyn cyflwyno'r drefn diogelwch ar-lein.<sup>8</sup>
- 2.8 Yn benodol, bydd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
- cynnal perthynas waith agos er mwyn hwyluso trafodaeth am eu gweithgareddau goruchwyllo a gorfodi eu hunain;
  - parhau â'u gwaith ar y cyd ar dechnolegau diogelwch, gan gynnwys sicrhau oedran a thechnolegau rhagweithiol;
  - datblygu codau ymarfer a chanllawiau nesaf Ofcom o dan y drefn diogelwch ar-lein a datblygu canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer technolegau diogelwch ar-lein fel cymedroli cynnwys, proffilio defnyddwyr a thechnolegau adnabod ymddygiad.<sup>9</sup>

## Hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu data

- 2.9 Roedd datganiad ar y cyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2021 yn amlinellu'r cysylltiadau rhwng cwrmpas ac amcanion diogelu data a rheoleiddio cystadleuaeth.<sup>10</sup> Mae cydweithrediad rhwng y ddau reoleiddiwr yn hanfodol er mwyn achub y blaen ar unrhyw densiynau posibl neu dybiedig, neu eu datrys, fel bod sylw'n cael ei roi i fuddiannau busnesau a defnyddwyr.

---

<sup>7</sup> [Profiadau o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein - Ofcom](#), cyrchwyd Ebrill 2023

<sup>8</sup> [Diogelwch ar-lein a diogelu data – datganiad ar y cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Tachwedd 2022](#)

<sup>9</sup> Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn diffinio technoleg cymedroli cynnwys fel technoleg - er enghraifft, algorithmau, paru allweddeiriau, paru delweddau neu ddsbarthu delweddau, sydd— (a) yn dadansoddi cynnwys perthnasol i asesu a yw'n gynnwys anghyfreithlon neu'n gynnwys sy'n niweidiol i blant, neu (b) yn dadansoddi cynnwys i asesu a yw'n hysbyseb dwyllodrus.

Mae technoleg proffilio defnyddwyr yn golygu technoleg sy'n dadansoddi (unrhyw un neu'r cyfan o)— (a) cynnwys perthnasol, (b) data defnyddwyr, neu (c) metadata sy'n ymwneud â chynnwys perthnasol neu ddata defnyddwyr, at ddibenion llunio proffil defnyddiwr i asesu nodweddion fel oedran. Mae technoleg adnabod ymddygiad yn golygu technoleg sy'n dadansoddi (unrhyw un neu'r cyfan o)— (a) cynnwys perthnasol, (b) data defnyddwyr, neu (c) metadata sy'n ymwneud â chynnwys perthnasol neu ddata defnyddwyr i asesu ymddygiad ar-lein defnyddiwr neu batrymau ymddygiad ar-lein (er enghraifft, i asesu a allai defnyddiwr fod yn ymwneud â gweithgaredd anghyfreithlon, neu fod yn ddioddefwr gweithgaredd o'r fath).

<sup>10</sup> [Competition and data protection in digital markets joint statement \(publishing.service.gov.uk\)](#), Mai 2021

- 2.10 Mae technoleg a marchnadoedd hysbysebu ar-lein wedi bod yn brif ffocws ein cydweithrediad rheoleiddiol hyd yma. Bydd y CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau â'u gwaith i sicrhau bod hysbysebion yn cael eu rhoi i ddefnyddwyr ar-lein mewn ffordd sy'n meithrin cystadleuaeth ac yn cynnal hawliau diogelu data unigolion. Yn ôl ystadegau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae gan 78% o bobl bryderon bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar eu hymddygiad. Mae hyn yn annog pobl i reoli eu gwybodaeth bersonol, gyda champau cyffredin yn cael eu cymryd pan fyddant ar-lein, gan gynnwys gwrthod cwcis pan fyddant yn cael eu cymell (55%), defnyddio rhwystrwyr hysbysebion ar wefanau (39%), a rhwystro apiau symudol rhag casglu a rhannu data (30%).<sup>11</sup>
- 2.11 Bydd ffocws cydweithrediad CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn ehangu i feysydd newydd lle gallant ddarparu mwy o gydlyniaeth rheoleiddiol i fusnesau a gwella gweithrediad marchnadoedd digidol ar gyfer defnyddwyr; er enghraifft, ynghylch cynigion y llywodraeth i wella rheoleiddio cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a diwygio fframwaith diogelu data'r Deyrnas Unedig.
- 2.12 Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r CMA yn:
- parhau i fonitro effeithiolrwydd ymrwymadau Blwch Tywod Preifatrwydd Google o ran sicrhau canlyniadau sy'n addas o ran cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn marchnadoedd hysbysebu ar-lein;<sup>12</sup>
  - edrych ar gyfleoedd i gyfuno ein harbenigedd a'n dealltwriaeth reoleiddiol pan fydd yn gallu cefnogi gweithgareddau goruchwyllo ac ymchwilio;
  - cyhoeddi papur safbwynt ar y cyd ar arferion pensaernïaeth dewis ar-lein sy'n arwain at gystadleuaeth, diogelu defnyddwyr a niwed o ran diogelu data;
  - parhau i ddatblygu ein dull o gydweithio o dan y trefniadau cystadleuaeth, diogelu data a marchnadoedd digidol arfaethedig a fyddai, yn amodol ar gynnydd deddfwriaeth newydd, yn ein gweld ni'n diweddarau ein datganiad ar y cyd yn 2021; ac
  - ystyried sut gallwn asesu ar y cyd effeithiau posibl ymyriadau rheoleiddio ar gystadleuaeth a diogelu data mewn marchnadoedd sy'n cael eu gyrru gan ddata, fel rhannu data neu atebion mynediad a diwygiadau cydsyniad sy'n seiliedig ar borwr.<sup>13</sup>

---

<sup>11</sup> Y cwestiynau perthnasol ar gyfer yr ystadegau hyn oedd Q: Isod, mae rhai pethau y mae pobl yn dweud wrthym eu bod wedi bod yn bryderus amdanynt ar wahanol adegau. Ar gyfer pob un o'r pethau hyn, dywedwch a yw hyn yn rhywbeth rydych chi'n poeni amdano, ynteu a yw'n rhywbeth nad ydych chi'n meddwl llawer amdano neu ddim yn poeni amdano. C: Pa rai o'r canlynol rydych wedi eu gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf? Os ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn, ond dros 12 mis yn ôl, gadewch nhw heb eu ticio. [Arolwg Ymwybyddiaeth y Cyhoedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#), Medi 2022

<sup>12</sup> Mae'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt gan y CMA gyda Google ym mis Chwefror 2022 yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth o ran effeithiau posibl cynlluniau Google i dynnu cwcis trydydd parti o Chrome a rhoi offer Blwch Tywod Preifatrwydd amgen yn eu lle. Mae diweddariadau ar weithredu'r ymrwymadau ar gael yma: [Investigation into Google's 'Privacy Sandbox' browser changes - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

<sup>13</sup> Mae rheoliad 6B o'r [Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol \(DPDI\) \(Rhif 2\)](#) yn cynnig pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ceisio sicrhau bod technoleg ar gael sy'n galluogi pobl i fynegi eu dewisiadau cydsynio yn effeithiol pan fyddant ar-lein. Gweler adrannau 572–578 y [Nodiadau esboniadol y Bil DPDI \(Rhif 2\)](#) am ragor o wybodaeth.

## Cynigion hyrwyddo ariannol ar-lein anghyfreithlon

- 2.13 Mae'r bygythiad o dwyll ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'n ymddangos ei fod yn arafu o gwbl. Yn 2022 cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol dros 1,880 o rybuddion ar ei Restr Rhybudd o'i gymharu â thros 1,400 o rybuddion yn 2021 – 34% o gynydd.<sup>14</sup> Mae defnyddwyr wedi dod i fwy a mwy o gysylltiad â risg drwy hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon ar lwyfannau fel peiriannau chwilio a safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain yn amrywio o sgamiau buddsoddi mewn cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr i hysbysebion ffug neu gamarweiniol. Mae'r FCA wedi rheoleiddio'r drefn hyrwyddiadau ariannol ers blynyddoedd lawer ac mae wedi datblygu cryn brofiad o ddelio â llwyfannau ar-lein ar y materion hyn.<sup>15 16</sup> Yng ngoleuni hyn, bydd nifer o droseddau mewn cyfraith gwasanaethau ariannol yn droseddau â blaenoriaeth o dan y Bil Diogelwch Ar-lein.<sup>17</sup>
- 2.14 Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer cwmnïau. Bydd yr FCA ac Ofcom yn parhau i weithio gyda'i gilydd i greu cyd-ddealltwriaeth o rwymedigaethau llwyfannau o dan y Bil Diogelwch Ar-lein a deddfwriaeth hyrwyddo ariannol.
- 2.15 Yn benodol, bydd yr FCA ac Ofcom yn:
- rhannu gwybodaeth a phrofiad sy'n ymwneud â hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon a thwyll ar-lein yn ogystal â'r risgiau a achosir gan wahanol fathau o wasanaethau yn y sector;
  - archwilio'r ffordd orau o adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â hyrwyddiadau ariannol wrth i Ofcom ddatblygu ei Godau Ymarfer a'i ganllawiau Diogelwch Ar-lein;<sup>18</sup>
  - ystyried y rhyngweithio ehangach y mae'r gwaith hwn yn ei wneud â chyfundrefnau rheoleiddio eraill, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r CMA.

---

## Cydweithio

- 2.16 Mae gan holl aelodau'r Fforwm ddyletswyddau a heriau rheoleiddio unigol, ond mae cydweithio ar faterion sy'n torri ar draws y cylchoedd gwaith rheoleiddio yn helpu pob aelod

---

<sup>14</sup>[Data Hyrwyddiadau Ariannol 2022](#), FCA, Chwefror 2023

<sup>15</sup> Trosedd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000— (a) adran 23 (mynd yn groes i waharddiad ar ymgymryd â gweithgaredd rheoleiddiedig oni bai ei fod wedi ei awdurdodi neu ei esemptio); (b) adran 24 (hawliadau ffug sydd i'w hawdurdodi neu eu heithrio); (c) adran 25 (mynd yn groes i gyfyngiadau ar hyrwyddo ariannol). Tramgwydd o dan unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf Gwasanaethau Ariannol 2012— (a) adran 89 (datganiadau camarweiniol); (b) adran 90 (argraff gamarweiniol).

<sup>16</sup> Fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a Gorchymyn Hyrwyddo Ariannol 2005 (FPO). Mae Adran 21 (a21) Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn nodi 'y cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol'. Mae hyn yn gwahardd rhoi gwybod am hyrwyddiad ariannol oni bai ei fod yn cael ei gyfleu neu ei gymeradwyo gan unigolyn awdurdodedig. Mae torri amodau adran 21 yn drosedd.

<sup>17</sup> Mae troseddau â blaenoriaeth yn cynrychioli'r cynnwys a'r gweithgarwch anghyfreithlon mwyaf difrifol ac amlwg ar-lein. Bydd angen i gwmnïau gymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â chynnwys o'r fath.

<sup>18</sup> [Twyll a sgamiau ar-lein - Ofcom](#), Mawrth 2023.

i gyflawni ein nodau. Mae manteisio ar y cyfleodd hyn yn ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon, osgoi dyblygu ymdrechion, datblygu dulliau a rennir a darparu canllawiau a rhoi ffordd o ymgysylltu ar y cyd i'r diwydiant lle bo hynny'n briodol.

2.17 Dros y flwyddyn nesaf, bydd hyn yn golygu:

- pob un o'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn cyfrannu at brosiect i gefnogi llywodraethu effeithiol mewn systemau algorithmig;
- pob aelod yn datblygu ffyrdd o helpu arloeswyr sydd angen cydymffurfio ar draws ein cyfundrefnau unigol; a
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cynnal ymchwil ar y cyd i'r manteision a'r niwed a achosir gan asedau digidol.

## Cynorthwyo'r gwaith o lywodraethu systemau algorithmig yn effeithiol

2.18 Mae defnyddio algorithmau i brosesu a chasglu data yn sail i lawer o wasanaethau digidol, gan ddarparu ymarferoldeb sy'n effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd. O ganfod gweithgarwch twyllodrus i'n cysylltu â'n ffrindiau neu gyfeirio ein llywio ar-lein, mae systemau algorithmig yn cynnig llawer o fanteision. Fodd bynnag, heb oruchwyliaeth briodol, gallent arwain at niwed unigol a chanlyniadau gwrth-gystadleuol. Fel rheoleiddwyr gwasanaethau digidol, rydym eisiau cefnogi'r defnydd o systemau algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r manteision ac yn lliniaru'r risgiau i bobl ac i gystadleuaeth.

2.19 Un gwasanaeth digidol o'r fath sy'n seiliedig ar algorithmau yw deallusrwydd artiffisial. Mae gan y Deyrnas Unedig ecosystem deallusrwydd artiffisial ffyniannus. Yn 2021, y Deyrnas Unedig oedd yr orau yn Ewrop a'r drydedd wladwriaeth yn y byd o ran buddsoddi preifat mewn cwmnïau deallusrwydd artiffisial (\$4.65 biliwn) a chwmnïau deallusrwydd artiffisial wedi eu cyllido o'r newydd (49). Yn ogystal, y Deyrnas Unedig yw'r wladwriaeth orau yn Ewrop o ran nifer y cyhoeddiadau deallusrwydd artiffisial yn 2021, gyda dim ond Tsieina, Unol Daleithiau America ac India yn cyflawni mwy.<sup>19 20</sup>

2.20 Byddwn yn arwain y ffordd o ran archwilio'r arferion gorau o ran llywodraethu rheoleiddiol deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys cynorthwyo'r gwaith o gyflawni fframwaith deallusrwydd artiffisial arfaethedig y llywodraeth.<sup>21</sup> Byddwn yn gwneud y canlynol:

- meithrin dealltwriaeth a diffiniadau cyffredin o egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i reoleiddio Deallusrwydd Artiffisial, fel tegwch, ar draws cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn ymgysylltu â'r llywodraeth, fel bo'n briodol, wrth iddi ddatblygu ei fframwaith deallusrwydd artiffisial arfaethedig.

---

<sup>19</sup> [Adroddiad Mynegai Deallusrwydd Artiffisial](#), "The AI Index 2022 Annual Report," Pwyllgor Llywio Mynegai Deallusrwydd Artiffisial, Stanford Institute for Human-Centred AI, Prifysgol Stanford, Mawrth 2022.

<sup>20</sup> [Arsyllfa Polisi Deallusrwydd Artiffisial y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - Data byw](#) Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), data byw a gyrchwyd ddiwethaf Ebrill 2023

<sup>21</sup> [Dull gweithredu o blaid arloesi yng nghyswllt rheoleiddio deallusrwydd artiffisial](#), Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, Mawrth 2023

- nodi ac archwilio risgiau deallusrwydd artiffisial newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws ein sectorau er mwyn bod yn ymwybodol o'r datblygiadau yn y dirwedd deallusrwydd artiffisial. Fel rhan o hyn, byddwn yn edrych ar ddatblygu achosion defnydd a risgiau posibl sy'n cael eu creu gan Ddeallusrwydd Artiffisial ar draws ein meysydd sy'n cael eu rheoleiddio.<sup>22</sup>
- ymchwilio i rôl gwasanaethau trydydd parti o ran archwilio algorithmau i gynorthwyo cydymffurfiaeth reoleiddiol.

## Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio

- 2.21 Mae arloesi'n rhan bwysig o farchnadoedd cystadleuol sy'n ffynnu. Mae'n galluogi cynnyrch a gwasanaethau newydd a gwell, yn cynyddu dewis i ddefnyddwyr ac yn datblygu systemau sy'n gyrru prisiau i lawr ac yn rhoi hwb i ansawdd gwasanaethau. Mae arloesi hefyd yn helpu i sbarduno'r economi, gan gefnogi gwell cynhyrchiant a thwf economaidd. Nod y Fforwm yw ei gwneud yn haws i gwmnïau sydd angen cydymffurfio ar draws ein gwahanol gyfundrefnau gynnal busnes.
- 2.22 Cyfrannodd y sector digidol bron i £151 biliwn at yr economi yn 2019 ac roedd yn cyfrif am 9% o'r gweithlu cenedlaethol.<sup>23</sup> Lansiodd busnes technoleg newydd yn y Deyrnas Unedig bob hanner awr drwy gydol 2020, yn ôl dadansoddiad o ffigurau busnes Tech Nation.<sup>24</sup> Mae'r Deyrnas Unedig hefyd yn perfformio'n well na'i chyfoedion Ewropeaidd o ran nifer y busnesau newydd sydd wedi ennill statws 'unicorn' (cwmnïau sydd â phrisiadau dros \$1 biliwn) ac uncyrn posibl yn y dyfodol (y gyfradd uchaf yn Ewrop yn 2021). Yn 2021, roedd gan y Deyrnas Unedig gyfanswm o 114 busnes unicorn, mwy na Ffrainc a'r Almaen gyda'i gilydd.<sup>25</sup>
- 2.23 Mae amrywiaeth o wahanol ddulliau ar draws rheoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig i gynorthwyo cwmnïau â'u harloesi, fel gwasanaethau cynghori presennol a blychau tywod. Rydym eisiau deall pa wasanaethau fyddai'n gweddu orau i anghenion arloeswyr digidol, o ran fformat y gwasanaeth a'r mathau o faterion sydd fwyaf perthnasol iddynt. Byddwn yn dylunio ac yna'n treialu gwahanol ddewisiadau ar gyfer gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth ar gyfer arloeswyr digidol. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl drwy grant gan Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr a lansiodd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).
- 2.24 Mae cyhoeddiadau diweddar fel adroddiad Vallance a Phapur Gwyn y Llywodraeth ar reoleiddio deallusrwydd artiffisial wedi cyfeirio at y posibilrwydd o sefydlu blwch tywod traws-reoleiddiwr ar gyfer deallusrwydd artiffisial i gefnogi arloesi yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i gysylltu'n agos â'r llywodraeth wrth i'n gwaith fynd rhagddo a byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgir o'n hymchwil ag arloeswyr digidol.

<sup>22</sup> Eglurir Deallusrwydd Artiffisial achosol yn nhroednodyn 3 uchod..

<sup>23</sup> [Amcangyfrifon Economaidd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2019: Gwerth Ychwanegol Gros Chwefror 2021](#)

<sup>24</sup> <https://technation.io/news/new-tech-business-launched-every-half-an-hour-in-the-uk-in-2020/> TechUK, March 2021

<sup>25</sup> <https://2021.stateofeuropeantech.com/chapter/better-ideas-better-companies/article/ideas-gamechangers/1079/4647#c1079> State of European Tech 2021



## Deall y manteision a'r niwed a achosir gan asedau digidol

- 2.25 Mae asedau digidol yn asedau unigryw sydd wedi eu diogelu mewn cryptograffeg y gellir eu creu, eu trosglwyddo, eu storio neu eu masnachu'n ddigidol.<sup>26</sup> Mae sawl math o asedau digidol yn yr economi ddigidol, gan gynnwys tocynnau anghyfnewidawdy sy'n rhoi hawliau perchnogaeth i ased unigryw (e.e. celf ddigidol), a 'crypto-asedau', y gellir eu cyfnewid i setlo taliadau (e.e. arian neu docynnau ). Mae asedau digidol wedi dod yn fuddsoddiad cynyddol boblogaidd i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, gydag oddeutu 10% o oedolion y Deyrnas Unedig yn meddu ar ryw fath o grypto-ased, yn ôl ymchwil a wnaed gan CThEM.<sup>27</sup>
- 2.26 Er mai dim ond cyfran fach o drafodion marchnad gwasanaethau ariannol sy'n cael eu cynrychioli gan asedau digidol, ac er eu bod yn dal yn anwadal, mae gan eu defnydd, a'r defnydd o'r technolegau sy'n sail iddynt, y potensial i dyfu. Yn y dyfodol, gallai mwy o drafodion ariannol fod y tu allan i sefydliadau ariannol traddodiadol, yn ogystal â'r gwaith cysylltiedig o brosesu data personol. Gallai hyn greu heriau rheoleiddio newydd. Gan hynny, mae'n bwysig bod rheoleiddwyr yn deall yn iawn y risgiau a'r manteision y gallai asedau digidol eu cynnig i ddefnyddwyr o safbwynt rheoleiddio ariannol a diogelu data.<sup>28 29</sup>
- 2.27 Bydd yr FCA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal ymchwil ar y cyd i feithrin dealltwriaeth gydweithredol ddyfnach o agweddau defnyddwyr tuag at asedau digidol a sut maent yn rhyngweithio â'r cynhyrchion hyn. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y manteision a'r niwed maent yn gallu eu creu i ddefnyddwyr, o safbwynt rheoleiddio gwasanaethau ariannol a rheoleiddio diogelu data. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth polisi a gawn o'r gwaith ymchwil hwn.<sup>30</sup>

---

## Gallu

- 2.28 Mae angen i ni ddiweddarw ac arfogi ein hunain yn barhaus ar gyfer y dasg o reoleiddio digidol. Drwy'r Fforwm, mae'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn cael cyfleoedd gwyich i

---

<sup>26</sup> Mae Cryptograffeg yn dechneg fathemategol ar gyfer amgryptio a dadgryptio data i'w gadw'n breifat pan fydd yn cael ei drosglwyddo neu ei storio'n electronig.

<sup>27</sup> [Unigolion sy'n meddu ar grypto-asedau: defnyddio a deall](#), CThEM, Gorffennaf 2022

<sup>28</sup> Mae ystyriaeth yr FCA o faterion rheoleiddio crypto-asedau wedi bod yn parhau. Ym mis Mawrth 2022, atgoffodd [Cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ddatganiad](#) bob cwmni rheoledig o'u rhwymedigaethau presennol pan fyddant yn rhyngweithio â chrypto-asedau a gwasanaethau cysylltiedig neu'n dod i gysylltiad â nhw. Nododd [2021 Adroddiad Perimedr](#) hefyd fod llawer o'r sector crypto-asedau yn dal i fod y tu allan i gylch gwaith rheoleiddiol presennol yr FCA, ond pan fydd cwmnïau'n asesu'r risgiau mae crypto-asedau yn eu hachosi, dylent ddefnyddio dull tebyg i'r un ar gyfer y gweithgareddau rheoledig maent yn eu cynnal.

<sup>29</sup> Roedd adroddiad Tech Horizons Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 2022 yn nodi bod defnyddio technolegau cyfriflyfr gwasgaredig mewn cyllid datganoledig yn gallu arwain at heriau o safbwynt rheoleiddio diogelu data, fel codi cwestiynau am atebolrwydd cydymffurfio a chyflwyno heriau i unigolion sy'n arfer eu hawliau gwybodaeth. Gweler: [ico-future-tech-report-20221214.pdf](#)

<sup>30</sup> Bydd yr wybodaeth hon yn sail i ddi-ddordeb parhaus gan y llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach ynghylch sut mae rheoleiddio asedau digidol yn y dyfodol. Mae'r diddordeb diweddar wedi cynnwys: [Chwefror 2023 Papur Ymgynghori gan Drysorlys Ei Fawrhydj, Ymchwiliad Pwyllgor Dethol y Trysorlys i'r diwydiant crypto-asedau ac Ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i docynnau anghyfnewidawdy a'r gadwyn flociau.](#)



gydlynu, archwilio amcanion ar y cyd a dysgu oddi wrth ei gilydd wrth i ni ddatblygu'r wybodaeth a'r arbenigedd hwn. Mae ein prosiectau blaenoriaeth yn ein helpu i wneud hyn drwy:

- sganio pa dechnolegau allweddol sy'n dod i'r amlwg sydd ar y gorwel a datblygu dealltwriaeth o'r rhain;
- gwella'r broses o rannu gwybodaeth drwy rwydweithiau arbenigol, er mwyn i ni allu meithrin dealltwriaeth ar y cyd o faterion allweddol;
- cynorthwyo'r gwaith o gadw doniau a meithrin sgiliau a galluoedd ar draws y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau, gan greu cynnig deniadol o werth i weithwyr i gadw a symud y bobl iawn o gwmpas aelodau'r Fforwm;
- archwilio dulliau mwy ymarferol o gydweithio o ran sut rydym yn defnyddio technoleg i ategu a chyflawni amcanion rheoleiddio; a
- gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydlu cymuned ryngwladol o awdurdodau rheoleiddio sydd â ffocws tebyg i'r Fforwm.

## Sganio'r gorwel ar y cyd i greu dealltwriaeth o dechnolegau newydd

- 2.29 Mae cynnal gweithgareddau sganio'r gorwel mewn perthynas â thechnolegau newydd allweddol – a datblygu ymateb strategol i'r datblygiadau hyn – yn agwedd graidd ar waith y Fforwm. Byddwn yn parhau i ymgysylltu a meithrin cysylltiadau â Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth, y Cyngor Gorwelion Rheoleiddio, ac eraill ar draws y llywodraeth sy'n defnyddio dulliau sganio'r dyfodol a'r gorwel fel bod cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn cyd-fynd â'r arferion gorau ac yn rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu.
- 2.30 Drwy broses flaenoriaethu traws-reoleiddwyr ac ystyried ymatebion i'n Cais am Fewnbwn, rydym wedi nodi dau bwnc i'w hystyried ymhellach y flwyddyn nesaf:
- **Byddwn yn edrych ar sut gallai 'hunaniaeth ddigidol' esblygu ar draws nifer o feysydd technolegol yn y tymor canolig.** Mae hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau fel hunaniaeth ddigidol ddatganoledig (fel y nodwyd yn ein Papur Gwybodaeth Web3), hunaniaeth o fewn fframweithiau data agored, ac enghreifftiau rhyngwladol o ddefnyddio hunaniaeth ddigidol.<sup>31</sup> Mae hunaniaeth ddigidol yn un o brif alluogwyr llawer o ddatblygiadau technolegol yn y farchnad a gallai effeithio ar holl gylchoedd gwaith rheoleiddio aelodau'r Fforwm. Rhagwelwyd y gallai Hunaniaeth Ddigidol ddatgloi gwerth economaidd sy'n cyfateb i 3 i 13 y cant o'r cynnyrch domestig gros yn 2030 yn y Deyrnas Unedig.<sup>32</sup>
  - **Modelau Busnes mewn amgylcheddau rhithwir (metafydoedd).** Byddwn yn edrych ar ba fath o fodelau busnes allai ddatblygu mewn amgylcheddau rhithiol a sut gallai hyn greu cynnyrch a gwasanaethau newydd, a sut gallai effeithio ar ddefnyddwyr, ar draws

---

<sup>31</sup> [Papur Gwybodaeth Web3](#), y Fforwm, 3 Chwefror 2023

<sup>32</sup> [Dyfodol Dulliau Adnabod Digidol: Beth mae'n ei olygu i chi · Yoti](#) Mehefin 2022

ein cylchoedd gwaith rheoleiddio. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'n Symposiwm blaenorol ar y Metafyd ac yn ystyried pa fodolau busnes allai sbarduno buddsoddiad, gwerth ariannol, a dylanwadu ar fabwysiadu'r technolegau arloesol hyn.<sup>33</sup> Byddwn hefyd yn edrych ar rôl safonau a'r gallu i ryngweithredu, a sut mae hyn yn sbarduno'r gwaith o greu modelau busnes, cynnyrch a gwasanaethau newydd. Mae disgwyl i'r farchnad hon fod yn werth tua 900mn-1biliwn erbyn 2030.<sup>34</sup>

## Rhannu gwybodaeth yn well drwy rwydweithiau arbenigol

- 2.31 Mae'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau wedi creu rwydweithiau ffurfiol i hwyluso rhannu gwybodaeth yn ddyfnach ar draws timau sy'n gweithio ar bynciau cyffredin. Bydd y rwydweithiau hyn yn parhau i alluogi cydweithwyr i wneud cysylltiadau, rhannu arbenigedd ac archwilio'r potensial ar gyfer rhagor o gydweithio. Drwy hyrwyddo'r grwpiau traws-reoleiddiwr hyn, rydym yn gobeithio y byddwn yn galluogi datblygiad polisi mwy gwybodus a chreadigol. Rydym yn annog ein harbenigwyr i herio ei gilydd, rhannu profiadau a chael gweld safbwyntiau newydd.<sup>35</sup>
- 2.32 Eleni, byddwn yn adeiladu rwydwaith rhannu gwybodaeth sy'n edrych ar swyddogaethau rheoleiddio sy'n berthnasol i seiberddiogelwch a seibergadernid. Mae'r cysylltiadau posibl rhwng ein trefniadau rheoleiddio yn cynnwys rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth a'u diwygiadau posibl, Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021, a chynnwys rheoleiddio trydydd parti critigol yn y sector ariannol. Mae'r rwydwaith rhannu gwybodaeth hwn yn cynnwys Ofcom, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr FCA ac awdurdodau ariannol eraill yn y Deyrnas Unedig.
- 2.33 Ar ben hynny, byddwn yn rhannu gwybodaeth am ein rhyngweithio â chwmnïau allweddol mewn marchnadoedd digidol er mwyn canfod meysydd posibl ar gyfer cydweithio a chydweithredu.

## Denu doniau a datblygu sgiliau ar draws y pedwar rheoleiddiwr

- 2.34 Er mwyn rheoleiddio gwasanaethau digidol yn effeithiol, bydd angen i ni feithrin sgiliau a galluoedd priodol a denu pobl i'n sefydliadau. Mae sgiliau, galluoedd, arbenigedd a phrofiad cyffredin a fydd yn rhoi gwerth i bob un o'n cylchoedd gwaith rheoleiddio ac yn enwedig ein ffocws ar reoleiddio digidol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd drwy ymgyrchoedd cydgyssylltiedig i ddenu a chadw talent drwy gylchdroi graddedigion a chyfluoedd secondiad.

## Datblygu'r defnydd o dechnoleg wrth reoleiddio

- 2.35 Rydym eisiau defnyddio technolegau i'n helpu i ddeall tueddiadau'r farchnad ymhellach a sicrhau ein bod ni'n rheoleiddio mor effeithiol â phosibl. Y flwyddyn nesaf byddwn yn edrych ar sut gallwn ategu ein swyddogaethau rheoleiddio drwy ddefnyddio technegau dadansoddi a data i ddeall canlyniadau defnyddwyr a deinameg y farchnad yn well. Bydd y gwaith hwn

---

<sup>33</sup> [Symposiwm Metafydol](#). DRCF Mehefin 2022

<sup>34</sup> [Y Metafyd ac Arian - CitiGPS](#), Mawrth 2022

<sup>35</sup> Bydd ein rwydweithiau a sefydlwyd y llynedd yn parhau i rannu arbenigedd ar bynciau gan gynnwys technolegau rheoleiddio a goruchwyllo, gwasanaethau yn y cwmwl, technolegau hysbysebu, pensaernïaeth dewis a thechnolegau sy'n gwella preifatrwydd.

yn adeiladu ar y broses flaenorol o rannu gwybodaeth sydd wedi digwydd yn ystod 2022/23 ynghylch defnyddio technolegau rheoleiddio a goruchwylio mewn marchnadoedd digidol.<sup>36</sup>

## Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i rannu gwybodaeth a phrofiad

2.36 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu allan i'r Fforwm yn ffordd hanfodol o gasglu mewnbwn a gwybodaeth i lywio ein ffordd o feddwl; i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Fforwm ac i gynyddu effeithiau a chanlyniadau'r prosiect, a, lle bo hynny'n berthnasol, i gefnogi'r gwaith o gydlynu materion digidol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau wedi cryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid, gan gynnwys y byd academiaidd, diwydiant a'r gymuned reoleiddio ehangach yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r berthynas hon dros y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn sefydlu cymuned ryngwladol o awdurdodau rheoleiddio gyda dulliau tebyg o gydweithio ar reoleiddio digidol. Byddwn yn lansio'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (INDRC) gydag Awstralia, Iwerddon a'r Iseldiroedd fel yr aelodau sylfaenol.

Bydd y rhwydwaith hwn yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn:

- casglu gwybodaeth am sut mae awdurdodaethau tramor yn mynd i'r afael â chydlyniaeth a chydweithrediad rheoleiddiol domestig; ac
- meithrin perthynas rhwng rheoleiddwyr ar faterion rheoleiddio digidol.

2.37 Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr eraill yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys drwy gyfarfodydd o gwmpas y bwrdd bob chwarter blwyddyn â rheoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig, sydd bellach yn cynnwys deg rheoleiddiwr y tu allan i aelodau'r Fforwm.<sup>37</sup> Byddwn yn parhau â'r ymgysylltu pwysig hwn y flwyddyn nesaf ac yn edrych ar bosibiliadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr eraill ar brosiectau penodol.

2.38 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant, drwy grwpiau masnach ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau technoleg bach a mawr. Bydd ein prosiectau hefyd yn ymgysylltu'n helaeth â rhwydwaith eang o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant, cymdeithas sifil a grwpiau defnyddwyr a'r byd academiaidd.

2.39 Byddwn hefyd yn parhau i feithrin perthynas â seneddwyr perthnasol, Pwyllgorau Seneddol a Grwpiau Seneddol Hollbleidiol dros y flwyddyn nesaf.

---

<sup>36</sup> Technoleg Rheoleiddio (a elwir yn RegTech) yw defnyddio technolegau sy'n hwyluso'r gwaith o gyflawni gofynion rheoleiddiol sefydliadau yn fwy effeithlon ac effeithiol na'r galluoedd presennol. Mae Technoleg Oruchwyliaeth (a elwir yn SupTech) yn golygu bod rheoleiddwyr yn defnyddio technoleg i ategu eu gweithgareddau goruchwylio eu hunain.


<sup>37</sup> Y rhai sy'n bresennol yw'r Awdurdod Safonau Hysbysebu, Banc Lloegr, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Hapchwarae, y Swyddfa Eiddo Deallusol, yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynnyrch Meddygol a Gofal Iechyd a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu. Mae'r grŵp hwn yn dod at ei gilydd i rannu gwybodaeth a safbwyntiau mewn perthynas â thechnolegau rheoleiddio presennol ac i nodi ac archwilio synergeddau a chysylltiadau ar draws ein gwaith.



# A1. Atodiad: Ymateb i Gais am Fewnbwn

- A1.1 Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Fforwm Gais am Fewnbwn, a oedd yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y rhyngweithio o ran polisi, technolegau a/neu feysydd ffocws eraill yn ogystal â grwpiau rhanddeiliaid y dylid eu hystyried ar gyfer ein cynllun gwaith ar gyfer 2023/24.<sup>38</sup>
- A1.2 Gofynnem y cwestiynau a ganlyn i randdeiliaid:
- A oes unrhyw ryngweithio neu dechnolegau polisi yr hoffech i'r Fforwm eu hystyried wrth iddo ddatblygu ei gynllun gwaith ar gyfer 2023/24? Pam mae'r rhain yn bwysig? Amlinellwch feysydd sy'n cynnwys o leiaf ddau o gylch gwaith cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm.
  - Yn unol â'r 'ffactorau rydym yn eu hystyried wrth flaenoriaethu gwaith', a oes unrhyw feysydd ffocws rydych chi'n credu sy'n cyd-fynd â'r rhain nad ydynt yn cael sylw yn ein cynllun gwaith blaenorol?
  - A oes grwpiau rhanddeiliaid penodol (e.e. defnyddwyr terfynol fel defnyddwyr agored i niwed, plant, busnesau) rydych chi o'r farn y dylai'r Fforwm fod yn ymwybodol ohonynt wrth flaenoriaethu meysydd ffocws ar gyfer y Fforwm?
- A1.3 Cawsom ymatebion gan 32 o randdeiliaid ar draws diwydiant, y byd academiaidd, cymdeithas sifil, grwpiau defnyddwyr a rheoleiddwyr eraill.

**Ffigur 1 Ymatebion yn ôl grŵp rhanddeiliaid**



- A1.4 Mae'r ymatebion hyn wedi cyfrannu at Gynllun Gwaith 2023/24 y Fforwm ac ystyriaethau ehangach ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt. Mae ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun gwaith hwn.

<sup>38</sup> Cynllun gwaith y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) 2023 i 2024: Cais am fewnbwn, Rhagfyr 2022

- A1.5 Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn benodol eu cefnogaeth i'r Fforwm a'i amcanion o hyrwyddo 'cydlyniaeth', 'cydweithio' ac 'meithrin gallu' ar draws ei gyrff rheoleiddio sy'n aelodau.
- A1.6 Hoffem ddiolch i randdeiliaid am rannu eu safbwyntiau.

## Barn rhanddeiliaid am ryngweithio polisi ar draws rheoleiddwyr y Fforwm

- A1.7 Ailadroddodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd galluogi rheoleiddio cydlynol, gwybodus ac ymatebol ar economi ddigidol y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys:
- Cydbwysu diogelwch a phreifatrwydd unigolion ar-lein, yn enwedig er mwyn amddiffyn plant;
  - Canfod ac atal twyll a sgamiau ar-lein;
  - Hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebu digidol; ac
  - Atgyfnerthu diogelwch ar-lein drwy gystadleuaeth.
- A1.8 Roedd yr enghreifftiau eraill o ryngweithio polisi posibl a amlygwyd gan rai rhanddeiliaid yn cynnwys seiberddiogelwch, amgryptio'r rhyngwrwd a chadernid gweithredol mewn marchnadoedd digidol; data clyfar a mathau eraill o gludadwyedd data; defnyddio blychau tywod traws-reoleiddio i gynorthwyo arloesi; ac effaith arferion pensaernïaeth dewis ar-lein ar ddefnyddwyr.
- A1.9 Mae'r meysydd hyn yn rhan o Gynllun Gwaith y Fforwm ar gyfer 2023/24, yn enwedig pan fyddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau cysondeb ar draws ein cyfundrefnau (gweler paragraff 2.4). Mae prosiectau perthnasol eraill yn cynnwys ein cynlluniau i alluogi arloesi (gweler paragraff 2.21) ac i rannu gwybodaeth drwy rwydweithiau arbenigol (gweler paragraff 2.31). Bydd Ofcom a'r CMA yn parhau i weithio gyda'i gilydd pan fydd gan ymyriadau cystadleuaeth oblygiadau ar gyfer diogelwch ar-lein ac fel arall.<sup>39</sup>

## Barn rhanddeiliaid am dechnolegau posibl i'r Fforwm eu hystyried

- A1.10 Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at dechnolegau sydd naill ai'n creu risgiau ar gyfer defnyddwyr a rhai eraill sydd ar-lein neu'n cynnig atebion posibl iddynt. Yn benodol:
- Risgiau sy'n gysylltiedig ag asedau digidol, gan gynnwys tocynnau cyfnewidadwy (a elwir yn gyffredin yn 'gryptoarian' neu 'grypto-asedau') a thocynnau anghyfnewidiadwy (NFTs), yn ogystal â chynhyrchion 'DeFi';<sup>40</sup> technolegau biometrig; algorithmau a deallusrwydd artiffisial;

---

<sup>39</sup> I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar 'Sut mae'r CMA ac Ofcom yn disgwyl gweithio gyda'i gilydd' yn ['Diogelwch ar-lein a chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol: datganiad ar y cyd rhwng y CMA ac Ofcom'](#) CMA ac Ofcom, Gorffennaf 2022

<sup>40</sup> Mae cyllid datganoledig neu "DeFi" yn derm cyffredinol ar gyfer ceisiadau sy'n ceisio darparu amrywiaeth o wasanaethau ariannol ar gyfer technoleg cyfrifon gwasgaredig, a'r rhai mwyaf cyffredin yw cadwynau blociau.

- b) Atebion a gynigir gan ddulliau adnabod Digidol a thechnolegau adnabod a/neu ddilysu eraill yn ogystal â thechnolegau gwella preifatrwydd (PETs).
- A1.11 Bydd llawer o'r materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf, yn benodol yn ein cynlluniau i wneud y canlynol:
- a) Deall y manteision a'r niwed a achosir gan asedau digidol (gweler 2.25);
  - b) Ystyried yr arferion gorau o ran llywodraethu deallusrwydd artiffisial (gweler 2.18);
  - c) Datblygu dull gweithredu cydlynol ar gyfer technolegau sicrhau oedran i helpu i gadw pobl yn ddiogel ar-lein (gweler 2.6), yn ogystal ag archwilio sut gallai ID Digidol esblygu yn y tymor canolig (gweler 2.31); a
  - d) Rhannu gwybodaeth drwy rwydweithiau arbenigol (gweler 2.31).

## Barn rhanddeiliaid am feysydd ffocws eraill ar gyfer y Fforwm

- A1.12 Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid awgrymiadau ynghylch sut gall cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm gefnogi targedau sero net ac effaith newidiadau technolegol ar weithlu'r Deyrnas Unedig. Roedd cynigion eraill yn cynnwys fframwaith atebolrwydd traws-reoleiddiol ac ystyriaeth ehangach o'r cwmpas a'r methodolegau a ddefnyddir wrth archwilio marchnadoedd digidol a chadwyni gwerth.
- A1.13 Mae rhai o'r materion hyn yn feysydd y mae cyrff rheoleiddio unigol sy'n aelodau o'r farn eu bod y tu allan i'w gwaith ar y Fforwm. Er enghraifft, mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn ffactorau y bydd y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn eu hystyried wrth iddynt barhau â'u rhaglenni gwaith eu hunain dros y flwyddyn nesaf yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau economi sero net erbyn 2050.<sup>41</sup>
- A1.14 Rydym yn cydnabod yr heriau amrywiol mae twf yr economi ddigidol wedi eu hachosi i weithwyr a chyflogwyr yn y Deyrnas Unedig. Y tu allan i'n gwaith ein hunain i recriwtio a chadw doniau arbenigol (gweler 2.34), y llywodraeth sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn yn fwyaf priodol o dan ei Strategaeth Ddigidol, er enghraifft, a mentrau eraill.<sup>42</sup>
- A1.15 Bydd awgrymiadau eraill na chawsant eu blaenoriaethu ar gyfer Cynllun Gwaith 2023/24 yn dal yn y cwmpas i'w hystyried yn y dyfodol ac yn ein helpu i fapio materion sy'n rhyngweithio â'n cenhadaeth i sbarduno mwy o gydweithio rheoleiddiol ar faterion digidol a darparu dulliau rheoleiddio cydlynol er budd pobl a busnesau ar-lein. Yn ogystal â'r prosiectau a nodir yng nghynllun gwaith y Fforwm, bydd cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn parhau i gyfathrebu a, lle bo'n briodol, yn cydlynu i helpu i sicrhau bod ein hymdrechion ar y cyd yn darparu eglurder i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau digidol.

---

<sup>41</sup> I gael rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan y CMA a'r FCA i gefnogi sero net a mentrau amgylcheddol eraill, gweler [cyngor](#) y CMA ar gynaliadwyedd amgylcheddol a [canllawiau drafft](#) i helpu busnesau i gydweithredu ar yr amgylchedd yn ogystal â [diweddariad](#) yr FCA ar ei waith ar newid yn yr hinsawdd a chyllid cynaliadwy. Gweler hefyd BEIS, [Strategaeth Sero Net: Ailgodi'n Fwy Gwyrdd, Hydref 2021](#)

<sup>42</sup>[Strategaeth Ddigidol y Deyrnas Unedig](#), Mehefin 2022

## Barn rhanddeiliaid am feysydd posibl i'r Fforwm ymgysylltu â nhw

- A1.16 Pwysleisiodd y rhan fwyaf o randdeiliaid bwysigrwydd ymgysylltiad parhaus y Fforwm â set eang o safbwyntiau, gan gynnwys y rhai yn y diwydiant (gan gynnwys busnesau newydd a busnesau bach a chanolig), cymdeithasau masnach a rhwydweithiau eraill y diwydiant, y byd academiaidd, melinau trafod, grwpiau defnyddwyr, rheoleiddwyr eraill (yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol), rhwydweithiau rheoleiddio a llywodraeth. Cynigiodd un ymatebydd ehangu aelodaeth y Fforwm. Roedd llawer yn cynnig ymgysylltu a/neu bartneriaeth â'r Fforwm yn y dyfodol.
- A1.17 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'n gwaith yn y Fforwm, ar y cyd ac fel aelodau unigol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau rydym wedi eu datblygu yn ystod y flwyddyn hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gymuned reoleiddio rhyngwladol a rheoleiddwyr domestig ochr yn ochr â chynrychiolwyr y diwydiant, y byd academiaidd a chymdeithas sifil (gweler 3.26). Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer aelodaeth o'r Fforwm yn ogystal â phartneriaeth prosiect ar gael yn ein Cylch Gorchwyl.<sup>43</sup>

---

<sup>43</sup> Gweler troednodyn 1